# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**
**Contents**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
## Questions to the Finance Minister

### Y Portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
### The Economic Development and Transport Portfolio

**C7 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth? OAQ0319(FIN)

**Q7 Elin Jones:** Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the economic development and transport portfolio? OAQ0319(FIN)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae cynigion y gyllideb ddrafft, a gyhoeddais ar 27 Medi, yn cynyddu y terfyn gwariant adrannol ar gyfer y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth o £23 miliwn o 2005-06 i 2008-09.

**The Finance Minister (Sue Essex):** The draft budget proposals, which I published on 27 September, increased the departmental expenditure limit for the economic development and transport portfolio by £23 million from 2005-06 to 2008-09.

### Cynllun Cefnogi Pobl
### The Supporting People Initiative

**Q8 Mick Bates:** What representations has the Minister received from the Minister for Social Justice and Regeneration to ensure sufficient budget provision for the Supporting People initiative? OAQ0358(FIN)

**C8 Mick Bates:** Pa sylwadau a dderbyniodd y Gweinidog gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i sicrhau darpariaeth ddigonol yn y gyllideb ar gyfer y cynllun Cefnogi Pobl? OAQ0358(FIN)

**Sue Essex:** I have regular discussions with the Minister for Social Justice and Regeneration on all aspects of her portfolio.

**Sue Essex:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio am bob agwedd ar ei phortffolio.

**Y Portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**The Education and Lifelong Learning Portfolio**

**Q9 Nick Bourne:** What were the Minister's priorities when allocating overall funding to the education and lifelong learning portfolio? OAQ0326(FIN)

**C9 Nick Bourne:** Beth oedd blaenoriaethau'r Gweinidog wrth benderfynu ar y dyraniad cyffredinol yn y gyllideb ar gyfer y portffolio addysg a dysgu gydol oes? OAQ0326(FIN)

**Sue Essex:** Our priorities are set out in 'Wales: A Better Country'.

**Sue Essex:** Amlinellir ein blaenoriaethau yn 'Cymru: Gwlad Well'.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ0336(FIN), yn ôl.*
*Question 10, OAQ0336(FIN), withdrawn.*

**Y Gyllideb Ddrafft**
**The Draft Budget**

**Q11 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the continuing discussions in relation to the draft budget? OAQ0359(FIN)

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ynghylch y gyllideb ddrafft? OAQ0359(FIN)

**Sue Essex:** Discussions are continuing. I will be publishing my budget proposals in due course.

**Sue Essex:** Mae'r trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt. Byddaf yn cyhoeddi fy nghynigion ar gyfer y gyllideb maes o law.

**Cynyddu'r Gyllideb Gyffredinol ar gyfer Iechyd**
**Increasing the Overall Health Budget**

**Q12 Jonathan Morgan:** What discussions has the Minister had with the Minister for Health and Social Services about increasing the overall health budget to cope with additional pressures? OAQ0363(FIN)

**C12 Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau fu rhwng y Gweinidog a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynyddu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer iechyd i ymdopi â phwysau ychwanegol? OAQ0363(FIN)

**Sue Essex:** I routinely discuss a number of issues with the Minister for Health and Social Services.

**Sue Essex:** Yr wyf yn trafod nifer o faterion yn rheolaidd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cynigion ar gyfer y Gyllideb**
**Budget Proposals**

**Q13 Christine Gwyther:** Will the Minister outline how discussions with public sector representatives have influenced the rationale of formulating her budget proposals? OAQ0353(FIN)

**C13 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'r trafodaethau a gafodd gyda chynrychiolwyr y sector cyhoeddus wedi dylanwadu ar resymwaith llunio'i chynigion ar gyfer y gyllideb? OAQ0353(FIN)

**Sue Essex:** I have had numerous discussions with public sector representatives on the subject of formulating my budget proposals. I have taken into consideration not only the views of Cabinet colleagues but also those of

**Sue Essex:** Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau â chynrychiolwyr y sector cyhoeddus ynghylch llunio fy nghynigion ar gyfer y gyllideb. Yr wyf wedi cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Pwyllgor

the Local Government and Public Services Committee and the local government expenditure sub-group.

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grŵp gwariant llywodraeth leol, yn ogystal â sylwadau fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet.

**Y Portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
**The Economic Development and Transport Portfolio**

**Q14 Janet Davies:** What priorities has the Minister considered in the allocation of funding for the economic development and transport portfolio? OAQ0340(FIN)

**C14 Janet Davies:** Pa flaenoriaethau a ystyriwyd gan y Gweinidog wrth ddyrannu cyllid ar gyfer y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth? OAQ0340(FIN)

**Sue Essex:** Our priorities are set out in 'Wales: A Better Country', which is available on the Assembly website.

**Sue Essex:** Amlinellir ein blaenoriaethau yn 'Cymru: Gwlad Well' sydd ar gael ar wefan y Cynulliad.

**Y Portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**The Local Government and Public Services Portffolio**

**Q15 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on the draft budget allocation to the local government and public services portfolio? OAQ0364(FIN)

**C15 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0364(FIN)

**Sue Essex:** The draft budget, published on 27 September 2005, proposed increases of around 9.5 per cent from 2005-06 to 2008-09 to the local government and public services portfolio.

**Sue Essex:** Yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 27 Medi 2005, cynigiwyd cynnydd o tua 9.5 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09 yn y portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
## Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

**Taliadau Diwygio'r PAC**
**CAP Reform Payments**

**Q12 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on common agricultural policy reform payments? OAQ0483(EPC) ***Transferred for written answer.***

**C12 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am daliadau diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin? OAQ0483(EPC) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.***

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** On 15 November, I announced that farmers in Wales whose single payment scheme applications have been validated will receive 80 per cent of the gross value of their single payment scheme entitlements as soon as possible after 1 December. We are on track to make payments to a significant proportion of farmers in Wales before Christmas.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Ar 15 Tachwedd, cyhoeddais y byddai ffermwyr Cymru, y mae eu ceisiadau o dan y cynllun taliad sengl wedi'u dilysu, yn derbyn 80 y cant o werth gros y taliadau sy'n ddyledus iddynt cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Rhagfyr. Yr ydym yn disgwyl y bydd cyfran sylweddol o ffermwyr Cymru yn cael taliadau cyn y Nadolig.

*Atebwyd gweddill y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn.*
*The remaining questions were answered in Plenary.*